# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Brynglas**

**Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon**
**Brynglas Drive**
Casnewydd
**NP20 5QS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Brynglas

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Brynglas |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn, ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y plentyn, ac mae pwyslais cryf ar roi cyfle i'r plant arwain eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r plant yn setlo'n dda ac yn fodlon eu byd. Maent yn cael cyfleoedd i ddod yn annibynnol ac i feithrin eu sgiliau drwy amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd chwarae o ansawdd. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â'i gilydd a'r staff sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Darperir amrywiaeth dda o deganau, adnoddau a chyfarpar i hybu dysgu a datblygiad y plant. Mae'r amgylchedd yn ddeniadol, yn lân ac yn ddiogel, ac mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i fonitro ei addasrwydd, gan gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol mewn ymateb i COVID-19.

Caiff y gwasanaeth ei reoli mewn ffordd drefnus ac mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn deall yr angen i gadw gwybodaeth i ddangos addasrwydd y staff. Mae'r staff yn cael cyfleoedd datblygiadol rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn parhau'n gyfredol. Mae'r pwyllgor yn ymwneud â'r gwaith o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, ac mae ymrwymiad i wneud gwelliannau parhaus er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael gofal diogel.

## Llesiant

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion beunyddiol ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a'r staff. Maent yn gwybod beth i'w ddisgwyl yn ystod pob sesiwn ac yn edrych ymlaen at dreulio amser yn y gwasanaeth. Maent yn gallu dewis eu gweithgareddau'n ddidrafferth, ac yn gwybod y byddant yn cael help neu gymorth os byddant yn gofyn amdano. Er enghraifft, mae'r plant yn gallu symud rhwng yr ardal chwarae dan do a'r ardal chwarae awyr agored am y rhan fwyaf o'r sesiwn, a gallant ddewis o blith yr amrywiaeth eang o deganau a gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent yn chwarae'n hyderus ar y cyfan, gan fynegi boddhad â'u llwyddiannau. Er enghraifft, mae'r plant yn awyddus i ddangos eu lluniau a'u gwaith celf a siarad amdanynt, ac maent yn edrych ymlaen at fynd â'r rhain adref i'w rhieni. Maent yn mynd at y staff i gael cysur a sicrwydd yn ôl yr angen. Caiff pob ymgais i gyfathrebu gan y plant ei werthfawrogi a'i annog, ac mae hyn yn helpu'r plant i deimlo'n hyderus ac i feithrin hunan-barch.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu ac ehangu eu diddordebau. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig, sy'n mwynhau archwilio'r amgylchedd ac yn manteisio ar y gweithgareddau ysgogol sydd ar gael. Mae'r plant yn cael cyfleoedd ar gyfer chwarae dychmygus ac yn cael eu hannog i fynegi eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau chwarae yn y gegin fwd ac yn y gornel gartref. Mae gweithgareddau chwarae blêr, megis â thywod, paent a dŵr, yn cynnig cyfleoedd i'r plant fod yn greadigol a chael hwyl. Mae gan y plant ddiddordeb mawr yn y pryfed cop a'r pryfed eraill yn yr hambwrdd ac maent yn eu codi â gefeiliau er mwyn eu dangos i'w gilydd a'u trafod yn frwd.

Mae gan y plant gydberthnasau hoffus â'r staff ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn garedig tuag at ei ffrindiau ac yn chwarae’n hapus â'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, roedd y plant yn chwarae yn llawn cyffro mewn grwpiau yn creu nifer o guddfannau allan o'r dodrefn a'r adnoddau a oedd ar gael.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn golchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn dewis eu bwyd eu hunain. Maent yn gwisgo eu cotiau eu hunain pan fyddant yn mynd allan i'r awyr agored ac yn mwynhau'r ymdeimlad o gyflawniad wrth gwblhau'r tasgau hyn. Mae rhai o'r plant yn hoffi copïo gweithredoedd y staff ac wedi llunio eu cofrestr eu hunain y maent yn hoffi ei defnyddio gyda'u ffrindiau.

## Gofal a Datblygiad

Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro iechyd a diogelwch y plant. Caiff pob damwain a digwyddiad ei gofnodi a'i werthuso gan yr arweinydd, a chaiff pob cofnod ei lofnodi gan y rhieni. Mae gweithdrefnau diogelu da yn hyrwyddo lles y plant. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldeb i fod yn wyliadwrus ac maent yn glir ynghylch y prosesau i'w dilyn i ddelio ag unrhyw bryderon. Mae'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar ddiogelu ac yn cael yr holl wybodaeth gyfredol berthnasol. Mae ymarferion tân misol yn sicrhau bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael y safle'n ddiogel. Rhaid adnewyddu hyfforddiant cymorth cyntaf rhai aelodau o'r staff. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gloywi ar-lein nes y bydd yr hyfforddiant priodol ar gael. Mae'r staff yn gallu ymdrin ag unrhyw sefyllfaoedd cymorth cyntaf lle ceir mân anafiadau.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda i roi arferion hylendid a threfniadau glanhau ar waith, sy'n helpu i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau glanhau trwyadl drwy gydol y dydd, ac annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae'r plant yn dod â phecyn cinio gyda nhw a darperir byrbryd iach iddynt yn ystod y prynhawn. Mae'r staff yn sicrhau y caiff gwybodaeth yn ymwneud ag alergeddau ei rhannu ac y caiff y plant eu monitro'n ofalus.

Mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd garedig a gofalgar â'r plant, gan eu helpu i ddysgu a datblygu'n effeithiol. Maent yn gweithredu mewn ffordd gyson ac yn ystyried oedran a cham datblygu'r plant wrth reoli materion ymddygiadol. Mae'r staff yn defnyddio llais tyner i dynnu sylw plant sy'n rhwystredig neu'n drist, ac yn canmol y plant am eu hymdrechion. Maent yn mwynhau eu rolau ac yn rhoi cysur i'r plant sy'n teimlo'n ofidus.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Mae'r gweithwyr allweddol yn cydgysylltu'n agos â'r ysgol drws nesaf y mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ei mynychu bob bore. Caiff gwybodaeth berthnasol ei throsglwyddo rhwng y gwasanaeth a'r athro dosbarth er mwyn asesu datblygiad y plant a chynllunio gweithgareddau priodol. Mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd i greu system ffurfiol i gynllunio a monitro datblygiad a chyflawniadau'r plant.

Defnyddir y Gymraeg yn gyson ac yn dda drwy gydol y sesiynau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn darparu digon o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r staff yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant, a dileu'r risgiau hynny lle bo modd. Mae asesiad risg manwl ar waith ar gyfer pob ardal o'r lleoliad, sy'n cynnwys gweithgareddau. Mae cofrestrau yn cofnodi'r amseroedd y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Caiff gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer yr adeilad a chyfarpar eu trefnu gan yr ysgol, sy'n gyfrifol am yr adeilad sydd wedi'i leoli ar dir yr ysgol. Defnyddir rhan o'r adeilad gan staff yr ysgol, ac mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r staff yn sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol, a bod y plant yn cael eu goruchwylio ac yn aros o fewn eu hardal ddynodedig bob amser.

Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da ac yn adlewyrchu gweithdrefnau hylendid da. Mae'n darparu ardaloedd golau a llachar sydd â digon o le i'r plant archwilio. Ceir amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd da ac amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Gall y plant gael gafael ar deganau yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Caiff eu gwaith celf ei arddangos ar y waliau ac mae'n dathlu eu cyflawniadau, gan hybu eu hunan-barch. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig digon o gyfleoedd ar gyfer chwarae corfforol. Mae'r plant yn cael dewis da iawn o weithgareddau awyr agored, gan gynnwys trawst cydbwyso newydd a physt dringo sy'n cynnig heriau addas a phriodol i'w hoedran. Mae treiciau, cyfarpar dringo a gweithgareddau plannu yn yr ardd hefyd yn apelio i'r plant ac yn ehangu'r cyfleoedd iddynt ddysgu a datblygu.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn rhagweithiol ac yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol. Mae datganiad o ddiben clir ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn deall bod yn rhaid anfon pob hysbysiad i Arolygiaeth Gofal Cymru gan ddefnyddio'r broses hysbysiadau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu gofal o'r ansawdd gorau i'r plant a'u teuluoedd, ac mae'r tîm o staff yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant. Mae'r arweinydd yn ymrwymedig i'r lleoliad ac mae ganddi weledigaeth glir. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith ac maent yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Mae'r arweinydd yn cynnal gwiriadau er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae digon o staff cymwys a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn cael gofal da bob amser. Mae'r grŵp o staff yn fach ond yn sefydlog ac mae pob aelod o'r tîm yn ategu ei gilydd ac yn cydweithio'n llwyddiannus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wrthi'n casglu gwybodaeth i lunio'r adroddiad gofynnol ar ansawdd y gofal. Defnyddir adborth i nodi meysydd llwyddiant a meysydd i'w datblygu, gyda'r nod o wella'r gwasanaeth. Mae'r blaenoriaethau a nodwyd eisoes yn cynnwys sicrhau bod y staff yn cwblhau'r holl hyfforddiant gofynnol. Gan fod y gwasanaeth wedi bod ar gau am gyfnod sylweddol yn ystod y pandemig, mae'r arweinydd wrthi'n ailsefydlu'r tîm o staff ar ôl cyfnodau o absenoldeb hir.

Cyfathrebir â'r rhieni drwy ddefnyddio apiau cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost. Mae'r rhieni yn fodlon iawn ar y gwasanaeth ac yn ei werthfawrogi'n fawr. Maent yn falch o'r cydberthnasau agos a chefnogol y mae eu plant yn eu meithrin â'r staff. Caiff y plant eu casglu o'r ysgol ar ddiwedd sesiwn y bore a'u hebrwng i'r gwasanaeth yn ddiogel.

Mae gan y gwasanaeth gydberthnasau da iawn â'r ysgol sy'n gefnogol ac yn barod i helpu.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. datblygu system ffurfiol i gynllunio a chadw cofnodion o ddatblygiad y plant

A2. diweddaru'r hyfforddiant cymorth cyntaf cyn gynted ag y bydd y cwrs ar gael

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
|---|

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/06/2021